
## Dysgu Annibynnol dan Gyfarwyddyd: Canllawiau ar gymell, annog a magu hyder myfyrwyr

Mae dod yn ddysgwr ymreolaethol yn gofyn am gymhelliad a hyder. Gall aelodau staff chwarae rhan bwysig o ran cymell, annog a magu hyder myfyrwyr yn rhan o ddull dan gyfarwyddyd o ddatblygu dysgwyr annibynnol. Efallai y byddai'n ddefnyddiol i chi feddwl am y 'sgaffaldiau' hyn fel cymorth i fyfyrwyr symud trwy gyfres o gamau datblygu annibyniaeth, fel dechreuwr, i ganolradd, i arbenigwr, neu o fod yn weithredol, i ymgysylltiedig, i gwbl ymreolaethol.

Mae'r canllawiau hyn yn cynnig amrywiaeth o syniadau ymarferol i staff eu mabwysiadu, wedi eu trefnu o dan chwe phennawd.



## 1. Darparu gweithgareddau pontio cynhwysol i fyfyrwyr newydd

| | **Gweithgareddau manwl** |
|---|---|
|  | **Trefnwch gyfarfodydd tiwtorial a sesiynau cymorth dewisol ar amseroedd pan fo'r holl fyfyrwyr yn gallu mynychu ac yn debygol o wneud hynny.**<br><br>. |
|  | **Dechreuwch y sesiynau cyntaf gyda grwpiau newydd o fyfyrwyr gyda gweithgareddau torri'r iâ ystyrlon**<br>– e.e. gofynnwch i bob myfyriwr ysgrifennu nodyn dienw ar sut y mae'n teimlo (gall myfyrwyr mewn dosbarthiadau mawr wneud hyn mewn grwpiau o tua 6 i 8); plygu'r nodiadau a'u rhoi mewn 'het'; yna, fel grwpiau, agor y nodiadau a'u trafod.<br>Nid oes rhaid i neb gymryd cyfrifoldeb am ei nodyn (ond mae'n debygol y byddant yn gwneud hynny ar ôl iddynt ddechrau siarad).<br>Gofynnwch i bob grŵp adrodd yn ôl (neu lunio 'nodyn grŵp' i chi) ar yr hyn yw eu prif bryder ar hyn o bryd, neu i ddethol un cwestiwn yr hoffent gael ateb iddo. Gofalwch eich bod yn gwneud gwaith dilynol ar y rhain. |
|  | **Defnyddiwch eich sesiynau tiwtorial grŵp cychwynnol gyda myfyrwyr newydd i godi eu hymwybyddiaeth nhw (a'ch ymwybyddiaeth chi) o sut y gallai profiadau dysgu blaenorol fod yn llunio** disgwyliadau o ddysgu yn y brifysgol. Mae hyn yn arbennig o ddiddorol pan fydd gennych grwpiau hynod amrywiol, er enghraifft myfyrwyr a aeth i'r ysgol mewn amrywiaeth o wledydd â gwahanol ddiwylliannau dysgu.<br>Gofynnwch i'r myfyrwyr weithio mewn grwpiau bach i gymryd tro yn disgrifio dosbarth nodweddiadol yn eu hysgolion – y maint, yr hyn yr oeddent yn ei wneud fel rheol, yr hyn yr oedd yr athro/athrawes yn ei wneud, pa waith cartref paratoadol a dilynol yr oeddent yn ei wneud fel rheol, sut yr oeddent yn annerch eu hathro/athrawes yn y dosbarth, beth oedd y protocol os nad oeddent yn deall rhywbeth yr oedd yr athro/athrawes wedi ei ddweud ac ati.<br>Yna gofynnwch iddynt sut y maent yn disgwyl i'r holl agweddau hyn fod yn y brifysgol. Gofynnwch iddynt nodi unrhyw gwestiynau sy'n codi, a gorffennwch gyda sesiwn cwestiwn ac ateb. |
| **Enghraifft** | Mae'r rhaglen hon yn denu myfyrwyr aeddfed ag ymrwymiadau teuluol a myfyrwyr sy'n cymudo ar draws y sir. Gyda hyn mewn golwg, trefnir y sesiynau cychwynnol o gwmpas amserlen y flwyddyn gyntaf a'n nod yw defnyddio cyfnodau sydd ar gael rhwng darlithoedd neu yn ystod amser cinio. Gwneir hyn yn fwriadol i gynnwys yr holl fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn y cynllun. Er bod presenoldeb yn wirfoddol, mae'n cyrraedd dros 90% yn yr ychydig wythnosau cyntaf hyn.<br>Yn ein profiad ni, mae sylw a roddir i hwyluso astudio pwrpasol yn ystod y cyfnod sefydlu cychwynnol yn hybu ffurfiad grwpiau astudio ymreolaethol yn ddiweddarach yn y cwrs. (Bydwreigiaeth, Prifysgol Sheffield Hallam) (Thomas 2015: 43) |


## 2. Annog cymorth cymheiriaid

| | Gweithgareddau manwl |
|---|---|
|  | **Sefydlwch gymunedau dysgu cymheiriaid** trwy helpu myfyrwyr i ffurfio a gweithio mewn grwpiau astudio bach.<br><br>Cynhaliwch diwtorialau grŵp (yn hytrach nag 1 i 1) a defnyddiwch y tiwtorialau hyn i drefnu myfyrwyr yn grwpiau neu ‘dimau’ astudio bach (mae rhai myfyrwyr yn gwneud hyn heb ymyrraeth, ond ni fydd unrhyw fyfyriwr yn cael ei adael allan trwy roi’r cyfarwyddyd mewn tiwtorialau grŵp).<br><br>Rhowch dasg fach i bob tîm ei chwblhau gyda’i gilydd. Efallai y bydd y dasg gyntaf yn un y gallant ei chwblhau yn y tiwtorial, lle’r ydych chi wrth law i ateb cwestiynau a helpu, e.e. dechreuwch trwy ofyn iddynt rasio ei gilydd i ddod o hyd i wybodaeth allweddol yn eu llawlyfr cwrs, neu i edrych ar y ffordd y mae cyfeiriadau wedi cael eu dyfynnu (yn anghywir) mewn dyfyniad o aseiniad myfyriwr a chytuno ar ffurf ddyfynnu gywir.<br><br>Ewch yn eich blaen i dasgau y bydd angen iddynt gyfarfod y tu allan i’r tiwtorial i’w cyflawni. Pan fo’n bosibl, cysylltwch y tasgau yn uniongyrchol â’u cwrs ar sail ‘angen gwybod’ a ‘mewn union bryd’ – felly edrychwch ar yr amserlen asesu, a chynlluniwch dasgau grŵp bach i ddadansoddi a thrafod tasg asesu a’r meini prawf asesu oddeutu’r adeg y bydd y myfyrwyr yn dechrau gweithio ar yr aseiniad hwnnw. |
| | **Anogwch y myfyrwyr i fanteisio ar gyfleoedd mentora cymheiriaid** ac, yn y blynyddoedd diweddarach, i wirfoddoli i fod yn fentor cymheiriaid.<br><br>Treuliwch amser tiwtorial yn trafod y manteision i’r rhai sy’n cael eu mentora a’r mentoriaid.<br><br>Gwahoddwch fentor myfyriwr ‘uwch’ i mewn i ateb cwestiynau. |
| | **Defnyddiwch amser tiwtorial i fyfyrwyr weithio ar eu cynlluniau a’u dyheadau o ran datblygiad personol**.<br><br>Ailystyriwch y rhain yn gyfnodol i nodi cynnydd a chael adborth adeiladol gan ‘hyfforddwyr’ cymheiriaid. |

## 3. Bod yn dryloyw am addysgeg

| | **Gweithgareddau manwl** |
|---|---|
|  | **Disgrifiwch, esboniwch, a chyfiawnhewch ganlyniadau dysgu, gweithgareddau ac asesu** i'r myfyrwyr; gwnewch gysylltiadau â chyflogadwyedd a dysgu gydol oes yn eglur.<br><br>Anogwch y myfyrwyr i holi a thrafod yr hyn y maent yn ei ddysgu yn ogystal â pham maent yn dysgu yn y ffordd y maent, a'u teimladau ynghylch hyn. |
| | **Dylech gynnwys 'mân-fyfyriadau' mewn gwaith dosbarth a gwaith cwrs** i gynyddu meta-wybodaeth y myfyrwyr – gofynnwch i'r myfyrwyr feddwl am ffyrdd y gallai gweithgaredd dysgu fod yn ymarfer ac yn baratoad da ar gyfer bywyd 'go iawn'**.** |
| | **Gwnewch asesu yn fwy tryloyw.**<br><br>Mae asesu yn ffynhonnell fawr o bryder i fyfyrwyr, felly defnyddiwch fyfyrwyr i gynnig beirniadaeth o gyfarwyddiadau asesu; caniatewch amser dosbarth i drafod a dadansoddi tasgau asesu, i wneud yn siŵr bod myfyrwyr yn gwybod yn union yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud ac i ba safon.<br><br>Cynhaliwch weithdai marcio cymheiriaid gan ddefnyddio gwaith dienw go iawn o flynyddoedd blaenorol i helpu myfyrwyr ddadgodio'r meini prawf asesu a gwerthfawrogi safonau |
| | **Datblygwch sgiliau cynllunio tasgau:**<br><br>Pan fyddwch yn gosod gweithgaredd neu dasg i'w chwblhau yn annibynnol, naill ai'n unigol neu mewn grwpiau, neilltuwch rywfaint o amser dosbarth i fyfyrwyr drafod eu strategaethau ar gyfer mynd i'r afael â'r dasg yn effeithiol (fel eu bod yn trosglwyddo sgiliau dysgu annibynnol i'w gilydd) ac i gynllunio ar y cyd sut y byddant yn mynd ati i gyflawni'r dasg (da i'r rheini sydd ar gam dechreuwr dysgu annibynnol – bydd hyn yn eu cynorthwyo fel dysgwyr gweithredol).<br><br>Yn dibynnu ar ba un a ydynt ar y cam dechreuwr, canolradd neu arbenigwr o ran y dasg benodol dan sylw, gallwch gynnig awgrymiadau a chymhellion, a monitro eu hawgrymiadau i wirio nad ydynt wedi methu unrhyw beth pwysig, neu awgrymu strategaethau anaddas.<br><br>Ar ôl gwneud hyn ychydig o weithiau yn y dosbarth, pennwch 'cynllunio gweithredol tasg' fel cam rhagarweiniol i'w gyflawni y tu allan i'r dosbarth (h.y. yn annibynnol), ond gyda rhywfaint o awgrymiadau i helpu'r myfyrwyr i gynllunio'n drylwyr, ac awgrymiadau o le i gael cyngor ar eu cynlluniau os byddant ei angen (eu cymheiriaid? Chi? Gwasanaethau canolog? Canllawiau ar-lein?).<br><br>**Ar ôl iddynt gyrraedd y cam ymreolaethol, dylai myfyrwyr wedi dod i'r arfer o gynllunio tasgau ac ni fydd angen eu cyfarwyddo i wneud hyn mwyach.** |

## 4. Magu hyder a meithrin llwyddiant myfyrwyr trwy ddyluniad asesu cynhwysol




Mae methiant y gellir ei osgoi yn tanseilio hyder a chymhelliad. Mae dyluniad ac arfer asesu cynhwysol yn cael gwared ar rwystrau diangen i lwyddiant, ac yn cynnig y cyfle i bob myfyriwr ddangos ei fod wedi cyflawni canlyniadau dysgu hyd eithaf ei allu. Mae'r diagram hwn yn crynhoi'r gwahanol gyfleoedd i wneud asesu yn gynhwysol. Diagram yn seiliedig ar syniadau a gyflwynwyd yn '*7 Steps to Inclusive Assessment*', Prifysgol Plymouth (2014)**.** Os hoffech drosolwg cryno a syniadau ymarferol ar sut i asesu myfyrwyr yn gynhwysol, gweler y ddogfen friffio 'Asesu cynhwysol ar gyfer llwyddiant myfyrwyr' sydd wedi ei chynnwys yn y pecyn cymorth hwn.

## 5. Creu amgylchedd agored, cefnogol lle dangosir parch


[ac y mae myfyrwyr yn teimlo y gallant gymryd rhan yn ddiogel, ymgysylltu â chymryd risgiau ynddo]

| | **Gweithgareddau manwl** |
|---|---|
|  | **Dechreuwch y cwrs gyda gweithgaredd grŵp cryno i ddatblygu cyfres o 'reolau sylfaenol' ar y cyd ar gyfer cymryd rhan yn y dosbarth (neu mewn fforymau ar-lein ac ati)**<br><br>Dylech gynnwys eitemau sy'n berthnasol i ymddygiad ac agweddau eich myfyrwyr yn ogystal â'ch rhai eich hunain hefyd, e.e. dywedwch y byddwch yn paratoi'n drylwyr ar gyfer sesiynau (gan ddisgwyl i'r myfyrwyr wneud yr un fath), y byddwch yn gwerthfawrogi pob cyfraniad a chwestiwn (ac na fyddwch byth yn ystyried bod cwestiwn yn 'wirion'), y byddwch yn hwyluso sesiynau fel bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu, y byddwch yn cymryd camau, ac yn disgwyl i bobl eraill wneud yr un fath, i ddiogelu urddas pobl a'u hawl i gael eu trin yn gyfartal os byddwch yn gweld bod bygythiad i hyn, ac ati.<br><br>Efallai y bydd yr ymddygiadau hyn yn ymddangos yn amlwg i chi, ond ni fyddant o reidrwydd yn amlwg i'r myfyrwyr. Rydych yn dangos trwy gynnwys eich ymrwymiadau eich hun ymhlith rheolau sylfaenol y grŵp eich bod yn parchu eich myfyrwyr ac yn eu gweld fel partneriaid yn yr ystafell ddosbarth |
| | **Crëwch gyfleoedd ar gyfer trafodaeth a chwestiynau yn y dosbarth**<br><br>• Dylech gynnwys naill ai tasgau cryno i'w cwblhau mewn parau neu grwpiau, neu 'seibiannau' munud o hyd ar adegau allweddol mewn darlith i'r myfyrwyr ystyried yr hyn yr ydych newydd ei gyflwyno a gofyn am eglurhad, ailadroddiad o bwynt ac ati.<br>• O ran yr olaf, osgowch 'hofran' yn ddisgwylgar – trowch eich cefn am eiliad, neu gwiriwch eich nodiadau, i roi cyfle i'r myfyrwyr feddwl heb deimlo o dan bwysau.<br>• Gofynnwch iddynt feddwl am hyn mewn parau neu grwpiau bach (gweler yr eitem nesaf).<br><br>Anogwch nhw i ysgrifennu eu cwestiynau i lawr (nodyn gludiog neu ar Padlet ac ati) fel y gallwch gasglu'r rhain ac adolygu'n ddiweddarach unrhyw rai nad oedd amser i'w hateb yn y dosbarth |

| | |
|---|---|
| | **Ceisiwch osgoi rhoi'r canolbwynt ar fyfyrwyr yn ystod cyfnodau rhyngweithiol yn y dosbarth neu mewn darlith.**<br>• Gosodwch gwestiwn neu dasg i'w hystyried mewn parau neu grwpiau bach (yn breifat) cyn gofyn i rai myfyrwyr adrodd yn ôl (yn gyhoeddus). Bydd myfyrwyr swil a phryderus, a myfyrwyr rhyngwladol sydd â diffyg hyder yn eu Saesneg llafar, yn gwerthfawrogi'r dull hwn yn arbennig.<br>• Gofynnwch i'r myfyrwyr ysgrifennu cwestiynau neu bryderon ar dudalennau gludiog dienw i'w gadael ar daflen wrth y drws wrth iddynt adael.<br>• Defnyddiwch systemau ymateb fel Turning Point neu dechnolegau fel Nearpod a Padlet i ganfod lefel gwybodaeth neu ddealltwriaeth y grŵp, neu i bostio atebion neu ymholiadau dienw (yn yr un modd â'r tudalennau gludiog uchod). Pan fo ymatebion i'ch cwestiynau yn wahanol, gofynnwch iddynt drafod y gwahaniaeth mewn parau/grwpiau ac yna mynd i'r afael â'r cwestiwn eto. |
|  | **Dyluniwch strategaeth asesu cam wrth gam sy'n cynorthwyo llwyddiant myfyrwyr:**<br>• Yn ystod semester cyntaf blwyddyn 1, dylech gynnwys cyfres o dasgau bach sy'n hawdd eu cyflawni sydd, gyda'i gilydd, yn cyfansoddi asesiad cyfunol cyntaf y cwrs (mae sawl asesiad bach, pwysigrwydd isel yn teimlo'n llai o risg nag un asesiad mawr, pwysigrwydd uchel).<br>• Cynyddwch faint a her y tasgau yn raddol trwy gydol blwyddyn 1.<br>**Gofalwch bod amser rhwng pob tasg ffurfiannol i wirio a chynnig adborth (a bwydo ymlaen) cyn i fyfyrwyr fynd i'r afael â'r nesaf** |
| | **Gwnewch waith dilynol ar dasgau paratoi a gwaith cartref**<br>• Os ydych wedi gofyn i fyfyrwyr wneud gwaith paratoi neu 'waith cartref', neilltuwch ychydig funudau ar ddechrau pob dosbarth neu ddarlith i wneud sylwadau, i wneud ymholiadau, neu i gynnal cwis ar y gwaith.<br>Mae hyn yn cydnabod eu hymdrech ac yn rhoi ychydig o bwysau cymheiriaid ysgafn ar y rheini nad ydynt wedi gwneud y gwaith i'w wneud yn y dyfodol.<br>• Defnyddiwch y technegau trafodaeth grŵp 'preifat ac yna cyhoeddus' neu 'nodiadau dienw' a awgrymir uchod i annog cyfranogiad.<br>• Os ydych wedi gofyn iddynt bostio nodyn i chi gydag unrhyw ymholiadau neu eglurhad sydd ei angen arnynt, gofalwch eich bod yn ateb y rhain yn brydlon. |

| | |
|---|---|
| | **Myfyriwch ar yr ‘awyrgylch’ yr ydych yn ei greu yn y dosbarth (neu ar-lein) ac mewn adborth** trwy eich ymddygiadau eich hun a’ch defnydd o iaith. Sut gallai wneud i fyfyrwyr deimlo?<br><br>• Pa dechnegau ydych chi’n eu defnyddio i sefydlu ymddiriedaeth a chydberthynas â myfyrwyr unigol a grwpiau o fyfyrwyr?<br>• A ydych chi’n dangos eich ochr ddynol?<br>• Os nad ydych yn gwybod rhywbeth neu’n ansicr (cwestiwn anodd gan fyfyriwr efallai), sut ydych chi’n ymateb? A ydych chi’n dweud nad ydych yn siŵr ac yn gwahodd y myfyrwyr i awgrymu sut y gallech chi ddarganfod yr ateb (gyda’ch gilydd)?<br>• Os ydych yn hoffi defnyddio hiwmor yn y dosbarth, a allai sylw ffraeth gael ei ddehongli fel coegni gan rai? Mae hiwmor yn wych ar gyfer datblygu cydberthynas, ond gall fod yn benodol iawn i ddiwylliant.<br>• A yw myfyrwyr yn teimlo eu bod yn cael eu hannog trwy adborth cadarnhaol, ac yn gwybod eich bod yn gwerthfawrogi eu hymdrech a’u cyfranogiad yn ogystal â chael yr ateb ‘cywir’? (A ydych chi’n dweud ‘diolch’ am gyfraniadau yn hytrach na chwarae rhan yr ‘arbenigwr beirniadol’ trwy ddweud ‘da’ ac ati?)<br>• Ble ydych chi’n sefyll neu’n eistedd yn y grŵp a beth mae hyn yn ei ddweud am sut yr ydych chi’n ystyried eich swyddogaeth yng nghyswllt y myfyrwyr?<br>• A ydych chi’n gwybod enwau eich myfyrwyr?<br>• Pan fydd myfyriwr yn cael rhywbeth yn anghywir neu’n cyflwyno gwaith nad yw’n ddigon da, a yw eich adborth yn beirniadu’r gwaith neu’r unigolyn?<br>• A ydych chi’n mynd ati’n weithredol i hybu’r syniad bod arbrofi a phrofi syniadau a damcaniaethau yn ganolog i ddysgu addysg uwch, ac mai dyma y mae academyddion yn ei wneud pan fyddant yn gwneud gwaith ymchwil? Ac yn amlach na pheidio, nid yw pethau’n digwydd fel y rhagwelwyd (mae’r atebion yn ymddangos yn ‘anghywir’) ac bod y canlyniadau hyn yn gyfleoedd dysgu yn hytrach na methiannau? |

## 6. Cyfeirio at gymorth

| | **Gweithgareddau manwl** |
|---|---|
|  | **Defnyddiwch amser tiwtorial i gael myfyrwyr i adolygu adborth** ar eu hasesiadau ffurfiannol a chyfunol.<br><br>Nodwch unrhyw themâu ailadroddus yn y sylwadau o ran yr hyn y mae angen iddynt ei wella.<br><br>Cyfeiriwch at adnoddau, dulliau, gweithdai ac ati a all gynorthwyo'r agwedd hon ar ddatblygiad (neu'n well, gofyn iddynt fynd ar-lein i ddod o hyd i'r rhain drostynt eu hunain, gyda'ch cyfarwyddyd chi neu eu cymheiriaid). |
| | **Fel tîm cwrs neu adran, crëwch 'daflen grynhoi' i diwtoriaid o'r holl wahanol fathau o gymorth i fyfyrwyr yr ydych yn gwybod amdanynt,** a'r manylion cyswllt perthnasol.<br><br>Bydd rhai o'r rhain yn cael eu darparu'n ganolog (gweler **myuni.swan.ac.uk/**) a bydd rhai'n lleol neu'n neilltuol i gwrs penodol hyd yn oed. Cadwch y daflen ar eich hysbysfwrdd neu fwrdd gwaith eich cyfrifiadur i'w gwneud yn hwylus cyfeirio ati.<br><br>Gall yr ymarfer hwn, os caiff ei wneud fel tîm cwrs, ddatgelu rhai pethau diddorol – ffynonellau o gymorth neu adnoddau hunan-fynediad ar-lein nad oedd pawb yn ymwybodol ohonynt, neu fylchau yn y ddarpariaeth y mae angen i chi eu llenwi. Mae'n dod yn fwy diddorol fyth os byddwch yn cyfethol partner neu ddau sy'n fyfyrwyr (ail flwyddyn neu flwyddyn olaf) i'r grŵp. |
| | **Defnyddiwch diwtorialau gyda myfyrwyr newydd i archwilio rhywfaint o'r cymorth sydd ar gael**, yn enwedig ar gyfer datblygu sgiliau academaidd. Gwnewch hyn yn rhan o'r sesiwn pan fyddwch chi'n gofyn i'r myfyrwyr weithio ar gynlluniau datblygu personol (gweler 'cymorth cymheiriaid' uchod). |
| | **Dylech gynnwys dolenni a rhifau cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymorth myfyrwyr yn eich llawlyfrau cwrs,** ond peidiwch â thybio y bydd y myfyrwyr wedi darllen ac amgyffred y wybodaeth hon.<br><br>**students will have read and absorbed this information.** |


**Pecyn Cymorth Dysgu Annibynnol Dan Gyfarwyddyd**

Prifysgol Abertawe, 2018, gyda chyllid grant gan Advance AUadvance-he.ac.uk, a datblygu gan Corony Edwards Consulting coronyedwards.co.uk. Ar gael o dan: Creative Commons Attribution-Non-commercial-ShareAlike 4.0 International Licence creativecommons.org/licenses/by-nc-sa/4.0 /